***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Paragraff 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

PROSPECTIVE

## ATODLEN 1

## CODI TALIADAU AM FAGIAU SIOPA: SANCSIYNAU SIFIL

*Cosbau ariannol penodedig: y weithdrefn*

3 (1) Rhaid i reoliadau bagiau siopa sy'n gwneud darpariaeth o dan baragraff 2 sicrhau—

(a) pan fo gweinyddwr yn bwriadu gosod cosb ariannol benodedig ar berson, bod rhaid i'r gweinyddwr gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad o'r hyn a fwriedir ("hysbysiad o fwriad") sy'n cydymffurfio ag is-baragraff (2),

(b) bod yr hysbysiad o fwriad hefyd yn cynnig y cyfle i'r person ryddhau ei hun rhag atebolrwydd am y gosb ariannol benodedig drwy dalu swm penodedig (y mae'n rhaid iddo fod yn llai na swm y gosb neu'n gyfwerth ag ef),

(c) os nad yw'r person yn rhyddhau ei hun rhag atebolrwydd yn y fath fodd—

(i) y caiff y person wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r gweinyddwr mewn perthynas â'r gosb ariannol benodedig y bwriedir ei gosod, a

(ii) ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau bod rhaid i'r gweinyddwr benderfynu a yw am osod y gosb ariannol benodedig ai peidio,

(d) pan fo'r gweinyddwr yn penderfynu gosod y gosb ariannol benodedig, bod yr hysbysiad sy'n ei gosod ("yr hysbysiad terfynol") yn cydymffurfio ag is-baragraff (4), ac

(e) y caiff y person y gosodir cosb ariannol benodedig arno apelio yn erbyn y penderfyniad i'w gosod.

(2) Er mwyn cydymffurfio â'r is-baragraff hwn, rhaid i'r hysbysiad o fwriad gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) y seiliau dros y bwriad i osod y gosb ariannol benodedig,

(b) effaith talu'r swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (1)(b),

(c) yr hawl i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau,

(d) o dan ba amgylchiadau na chaiff y gweinyddwr osod y gosb ariannol benodedig,

(e) o fewn pa gyfnod, na chaiff fod yn hwy na'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o fwriad, y caniateir rhyddhau rhag atebolrwydd i'r gosb ariannol benodedig, ac

(f) o fewn pa gyfnod, na chaiff fod yn hwy na'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o fwriad, y caniateir gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau.

(3) Rhaid i ddarpariaeth yn unol ag is-baragraff (1)(c)(ii) gynnwys darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau hynny pan all y gweinyddwr benderfynu peidio â gosod cosb ariannol benodedig.

(4) Er mwyn cydymffurfio â'r is-baragraff hwn rhaid i'r hysbysiad terfynol y cyfeirir ato yn is-baragraff (1)(d) gynnwys gwybodaeth o ran—

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Paragraff 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(a) y seiliau dros osod y gosb,
(b) sut y gellir talu,
(c) o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid talu,
(d) unrhyw ddisgowntiau am dalu'n gynnar neu gosbau am dalu'n hwyr,
(e) hawliau i apelio, ac
(f) canlyniadau peidio â thalu.

(5) Rhaid i ddarpariaeth yn unol ag is-baragraff (1)(e) sicrhau bod yr hyn y caiff person apelio yn erbyn penderfyniad gweinyddwr ar ei sail yn cynnwys y canlynol—
(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;
(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;
(c) bod y penderfyniad yn un afresymol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Paragraff 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 6(10)(d) substituted by S.I. 2024/706 reg. 22(a)
- s. 6(10)(d) substituted by S.I. 2024/706 reg. 22(b)